CYNLLUN GWAITH GRŴP CYFRANOGIAD Y STRATEGAETH: MAE POBL IFANC YN FFYNNU

IONAWR 2020 – RHAGFYR 2020

Cefndir y grŵp

Sefydlwyd Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at weledigaeth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid, gan weithio gyda phobl ifanc ar bob cam. Mae hyn er mwyn helpu i sicrhau bod gennym sector gwaith ieuenctid ar waith lle mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i gael llais, mynegi eu syniadau, datblygu ymreolaeth, adeiladu sgiliau, gwneud ffrindiau a chael hwyl. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed wrth weithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid i Gymru.

Dyma uchelgeisiau'r grŵp:

- datblygu cynnig gwaith ieuenctid cyson a hygyrch o safon sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sy'n helpu i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru'n ffynnu;
- ymgorffori dull hawliau plant cryfach ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- gwella gwybodaeth ieuenctid a gwaith digidol ieuenctid;
- sicrhau cymorth gwaith ieuenctid pwrpasol i bobl ifanc sy'n agored i niwed neu ar yr ymylon; a
- helpu i sicrhau bod model gwaith ieuenctid cynaliadwy i bobl ifanc yng Nghymru wrth wraidd gwasanaethau a sut maent yn cael eu cynllunio.

Aelodau'r grŵp

Sharon Lovell – Aelod Arweiniol o'r Bwrdd
Catrin James – Yr Urdd / Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru (CWVYS)
Rachel Benson – Ieuenctid Cymru
Charlotte Davies – Ymgynghorydd
Nick Hudd – Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
Arielle Tye – Promo Cymru
Jane Houston – Cynrychiolydd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Josie Powell – Prifysgol Caerdydd
Paul Williams – Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Arooj Khan – Cyngor Ieuenctid Prydain
Kelly McCarthy – Prifysgol De Cymru
Ffion Pennant – Clwb Ffermwyr Ifanc
Donna Lemin – Llywodraeth Cymru
Joel Hodson – Llywodraeth Cymru

Tasgau allweddol

Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi rhoi amrywiaeth o swyddogaethau i Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac mae'r ffordd y mae gwasanaethau a strategaethau'n cael eu datblygu ledled Cymru'n cynnwys pobl ifanc wrth wraidd yr holl drafodaethau. Fel gyda holl Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth, mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl ymrwymiadau a nodir yn y Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd. Mae'r rheiny sy'n benodol i ffocws y grŵp hwn yn cynnwys ymrwymiadau i'r canlynol:

- Parhau i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid gyson o safon yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni waeth ble mae pobl ifanc yn byw, eu hoedran, eu hunaniaeth na'u cefndir
- Cyflwyno dull hawliau plant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan sicrhau bod polisi gwaith ieuenctid a'r gwaith o'i gyflawni yn gwneud y canlynol:
    - Ymgorffori hawliau plant / pobl ifanc
    - Sicrhau cydraddoldeb a dim gwahaniaethu
    - Grymuso plant a phobl ifanc
    - Cefnogi eu cyfraniad
    - Pennu atebolrwydd
- Archwilio sut mae pobl ifanc yn cael mynediad i wybodaeth ac yn ei chreu a'i dehongli i'w cefnogi i wneud penderfyniadau a chymryd rhan mewn cyfleoedd a phrofiadau gwaith ieuenctid, a sut y gall offer digidol fwyafu ein dulliau gweithredu
- Adeiladu ar fwriadau Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru 2016, gan weithio tuag at gynnig sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol i bobl ifanc yng Nghymru
- Datblygu a chryfhau darpariaeth benodol wedi'i hanelu at gefnogi a gwella deilliannau i bobl ifanc sy'n fwy agored i niwed neu ar yr ymylon

Mae Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' wedi cytuno ar ein rhaglen waith allweddol o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn (Ionawr 2020 – Rhagfyr 2020). Dyma nhw:

Cam gweithredu	**Dyddiad dechrau'r gweithgaredd**	**Pwy**
Cyfrannu at yr ymarfer 'mapio' a gomisiynwyd ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Ystyried pwy sy'n ymgysylltu / pwy nad yw'n ymgysylltu. Pa iaith maent yn ei siarad? Beth yw eu hoedran? Beth yw eu blaenoriaethau ar gyfer gwaith ieuenctid? Beth yw eu hanghenion a'u dyheadau? Sut maent am gael mynediad i gefnogaeth? Pam nad yw rhai pobl ifanc yn ymgysylltu? Sut y	Mawrth 2020	Corff a gomisiynwyd / aelodau o Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae pobl ifanc yn ffynnu' gyda chefnogaeth gan Grŵp Gorchwyl a

gallwn ddangos effaith?		Gorffen y Gymraeg

Lledaenu fersiwn hwylus i ieuenctid o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid i Gymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gan weithio gyda Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall' a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Digidol, byddwn yn lansio poster a chynhyrchion cyfryngau cymdeithasol wedi'u llunio gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.	Diwedd Chwefror 2020	Gan weithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Digidol a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall'
Bydd pobl ifanc yn cyfranogi at ac yn ymgysylltu â phob Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Bydd Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: ‘Mae pobl ifanc yn ffynnu’ yn goruchwylio'r cynllun ymgysylltu a chyfranogi hwn.	Chwefror 2020 ar gyfer recriwtio’r bwrdd ac ymgysylltiad parhaus yn ystod pob cam allweddol	Sharon Lovell i gymryd yr awenau
Sicrhau bod ein cynnig gwaith ieuenctid wedi'i ymgorffori o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau plant a phobl ifanc. Byddwn yn adolygu Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru 2016, gan sicrhau bod y cynnig gwaith ieuenctid yn cael ei adlewyrchu a bod dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael ei gryfhau drwy ymestyn hawliau.	Ebrill – Mai 2020	Holl aelodau'r grŵp a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: ‘Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol’
Archwilio'r fframwaith deddfwriaethol y mae gwaith ieuenctid yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd a gwneud argymhellion am unrhyw welliannau. Archwilio/nodi darnau eraill o ddeddfwriaeth / meysydd polisi sy'n dylanwadu ar waith ieuenctid yng Nghymru a gwneud argymhellion i gryfhau'r rhain er mwyn i waith ieuenctid gael ei werthfawrogi a'i ddeall.	Ebrill – Mai 2020	Holl aelodau'r grŵp a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: 'Mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall'
Coladu tystiolaeth drwy astudiaethau achos o bwysigrwydd cynnig gwaith ieuenctid yn Gymraeg a Saesneg i bobl ifanc yng Nghymru.	Mehefin 2020 Coladu yn yr Wythnos Gwaith Ieuenctid a'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid	Holl aelodau'r grŵp a Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth eraill a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfathrebu a Marchnata

Archwilio dosbarthiad dyraniadau cyllid i'r sector ieuenctid gwirfoddol/statudol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid a Grant y Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn deg ac yn hygyrch ar gyfer cynnig gwaith ieuenctid cynaliadwy yn Gymraeg ac yn Saesneg i bobl ifanc.	Mawrth 2020 – Mehefin 2020	Holl aelodau'r grŵp a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: ‘Mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol’ a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg
Cyfrannu at set o ddangosyddion a rennir ar gyfer y sector gwaith ieuenctid sy'n gallu mesur effaith a gwerth gwaith ieuenctid yng Nghymru.	Mawrth 2020 – Mehefin 2020	Holl aelodau’r grŵp a Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth: ‘Mae gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol cyflogedig yn cael eu cefnogi i wella’ a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg
Parhau i ymgysylltu â phobl ifanc yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy'r flwyddyn ar gamau allweddol drwy ein Cynllun Cyfranogi ‘Gadewch i ni Siarad’.	Yn parhau	Pawb
Gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro o ran addasrwydd gwaith ieuenctid yng Nghymru.	Medi 2020	Holl Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth gyda chefnogaeth gan grwpiau gorchwyl a gorffen